# Siapiau 3D

**CYTGAN:**
**Siapiau 3D o'n cwmpas ym mhobman,**
**Mae rhai tu fewn ac eraill tu allan,**
**Mae rhai yn yr awyr a rhai ar y llawr,**
**Siapiau bach, canolig a siapiau mawr.**

**Beth yw sffêr? Wel, yr haul neu bêl,**
**Ciwb yw'r dis gydag wyth cornel,**
**Silindr yw'r tun sy'n llawn ffa,**
**Côn sy'n wych am ddal hufen iâ.**

**CYTGAN:**
**Siapiau 3D o'n cwmpas ym mhobman,**
**Mae rhai tu fewn ac eraill tu allan,**
**Mae rhai yn yr awyr a rhai ar y llawr,**
**Siapiau bach, canolig a siapiau mawr.**

**Bocs yw ciwboid ag ochrau hir,**
**Rhain sydd yn siapiau mor ddifyr,**
**Rydyn ni'n gallu'u cyffwrdd nhw,**
**A'u gweld yma ac acw.**

**CYTGAN:**
**Siapiau 3D o'n cwmpas ym mhobman,**
**Mae rhai tu fewn ac eraill tu allan,**
**Mae rhai yn yr awyr a rhai ar y llawr,**
**Siapiau bach, canolig a siapiau mawr.**

© 2021 S4C